GWAHARDDIAD ARBROFOL AR YRRU (HEBLAW AM FYNEDIAD)

LÔN GOLDWIRE, TREFYNWY

DATGANIAD RHESYMAU

1. Mae tîm Teithio Llesol y Cyngor wedi dynodi fod yr adran hon o Lôn Goldwire yn ardal o gonsyrn ar gyfer defnyddwyr priffyrdd bregus tebyg i gerddwyr, seiclwyr a phobl anabl oherwydd lled cyfyngedig y droetffordd. Cydnabyddir hefyd bod cerbydau hefyd yn defnyddio'r ffordd fel llwybr cyflym i gyrraedd Stryd Drybridge.

2. Mae'r darn o Lôn Goldwire, y cynigir ei chyfyngu, yn briffordd lle caniateir teithio mewn un ffordd yn unig, felly mae posibilrwydd defnyddio cyflymder amhriodol gan gerbydau, gall hyn yn ei dro gael effaith niweidiol bosibl ar ddiogelwch priffordd ar gyfer defnyddwyr bregus o'r briffordd.

3. Mae preswylwyr ac ymwelwyr i Lôn Goldwire a'r ardaloedd preswyl o amgylch yn defnyddio'r rhan hon o Lôn Goldwire i gerdded a seiclo i ganol y dref a'r ffordd arall o gwmpas, felly, mae'n ddolen bwysig o ran annog Teithio Llesol a chefnogi dulliau mwy cynaliadwy o deithio.

4. Nod gwahardd gyrru (heblaw am fynediad) yw cefnogi'r polisi cenedlaethol ar gyfer gwella diogelwch ffyrdd drwy greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel a chroesawgar ar gyfer pawb sy'n defnyddio priffyrdd a lleihau amlder a difrifoldeb gwrthdrawiadau traffig ffordd.

5. Bydd gwahardd gyrru (heblaw am fynediad) yn cyfrannu at ddarparu amgylchedd mwy diogel fydd yn annog pobl i gerdded, seiclo a sgwtio yn unol ag amcanion y Ddeddf Teithio Llesol.

6. Bydd y Cyngor yn monitro effaith y Gorchymyn Arbrofol ar y rhwydwaith priffyrdd cyfagos ac ar yr adran o Lon Goldwire lle mae'r gorchymyn yn weithredol er mwyn asesu'r effaith ar ddefnyddwyr priffyrdd yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i ddefnyddwyr priffyrdd sy'n gyrru, cerdded, seiclo a sgwtio.

7. Ar ôl i gyfnod 6 mis dechreuol y Gorchymyn Traffig Arbrofol hwn ddod i ben bydd y Cyngor yn adolygu effaith y Gorchymyn Arbrofol ar y rhwydwaith priffyrdd cyfagos. Os na fu'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd cyfagos yn anghymesur, yna bydd y Cyngor yn symud ymlaen i wneud y Gorchymyn Traffig Arbrofol yn barhaol.